

## DAVID, JOHN (1701? - 1756), gweinidog Annibynnol

**Enw:** John David  
**Dyddiad geni:** 1701?  
**Dyddiad marw:** 1756  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

a breswyliai yn y Cilast yn ymyl Maenor Deifi; ffermwr cefnog. Ymddengys mai tua 1736 y dechreuodd bregethu. Yn 1745, dilynodd Lewis Thomas o Fwlch-y-sais fel gweinidog Rhydyceisiaid yn Sir Gaerfyrddin a Glandŵr yn Sir Benfro. Pregethai'n deithiol ar draws lled mawr o wlad, yn ymestyn mor bell â Llandudoch; cynorthwyid ef yn 1747-8 gan **Evan Williams** o Gwmllynfell. Efo, yn bur sicr, oedd y John David a ymunodd â **Henry Palmer** a **Rees Davies** (gweler dan **Davies, Benjamin**, 1739? - 1817) mewn llythyr (*Trevecka Letter* 231) at **Howel Harris**, 22 Mawrth 1740). Bu farw 22 Gorffennaf 1756, a chladdwyd ym Maenor Deifi. Y mae marwnad iddo (argraffwyd hi yn y gwaith a enwir isod) gan **Morris Griffith** - efallai **Morris Griffith** o Hwlfordd; noder bod cofnod yn y gronfa Forafaidd yn Hwlfordd yn canmol John David yn fawr.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

J. Lloyd James, *Hanes Eglwys Glandwr o'r cychwyniad yn nghyda hanes dechreuol yr eglwysi a gychwynodd* (Merthyr Tydfil 1902), 1902, 16-34, yw'r brif ffynhonnell gweler hefyd *Y Cofiadur*, 1935, 13

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733363

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). DAVID, JOHN (1701? - 1756), gweinidog Annibynnol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-JOH-1701>

frannu

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government